Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Promoting economic participation:

challenges and opportunities for third sector organisations

Monday 8 February 2010, Cardiff City Stadium

Supported by

working links

Newid bywydau. Creu dyfodol.
Changing lives. Creating futures.

The current recession has concentrated Government minds on tackling unemployment to make sure that a generation isn't lost to dependency and economic inactivity.

Third sector organisations have historically worked with many of the groups that are now the focus of decision-makers' priorities. Established links with the most at-risk groups, an understanding of their needs, and a track record of supporting people out of dependency, mean the sector is ideally placed to contribute to current Government policies.

But what's in it for the sector? Grant funding is in steady decline with many organisations being forced to rationalise their services at a time when they are needed most.

So now is a crucial time for third sector organisations to link their work to current Government programmes and safeguard their services.

This conference will bring together the debate on the increasing role of the sector in promoting economic participation with a series of opportunity-based workshops on different programmes and projects.

Keynote speaker: Jim Knight, UK Government Minister for Employment and Welfare Reform

Assembly Government and third sector perspectives

Speakers' panel discussion with questions from the floor

Workshops on projects and programmes that provide opportunities to third sector organisations

Exhibition area and networking

PROGRAMME

9:30 **Registration, coffee and exhibitions**

10:15 **Chair's welcome and opening remarks**

10:25 **The Welsh Assembly Government perspective**
Leighton Andrews AM, Minister for Children, Education and Lifelong Learning

10:50 **The third sector perspective**
Graham Benfield OBE,
WCVA Chief Executive

11:10 **Coffee break**

11:25 **The UK Government perspective**
Jim Knight MP, Minister for Employment and Welfare Reform

11:50 **Panel discussion**

12:30 **Lunch and exhibitions**

13:30 **Conference resumes**

13:40 **Workshop session 1-6**

14:40 **Coffee break**

14:55 **Workshop session 1-6**

15:55 **What next?**
Phil Fiander, Director of Enterprise and Regeneration, WCVA

16:15 **Chair's closing remarks**

Jim Knight MP

The Department for Work and Pensions (DWP) is the largest department in the UK Government. It is responsible for helping people to work wherever they can, supporting those who can't, and helping employers to secure the skills and employees they need.

Jim Knight is Minister for Employment and Welfare Reform in the UK government where his portfolio includes responsibility for labour market and the economy, welfare reform, Jobcentre Plus, employment programmes including New Deal and City Strategy, and skills. This session will outline the DWP's current strategies and provide a UK Government perspective on the role of the third sector within the economic participation agenda.

Leighton Andrews AM

Jobs and employment initiatives are the end-goal of economic participation, but improving and developing skills, through education and training, is fundamental to getting people into good quality, sustainable employment.

Leighton Andrews is Minister for Children, Education and Lifelong Learning in the Welsh Assembly Government where his portfolio includes responsibility for basic skills, skills for employment and employability, skills gaps and shortages, and investment in skills for economic development. This session will offer a Welsh Assembly Government view on the third sector's role in skills development.

Graham Benfield OBE

WCVA has been at the centre of the third sector's role in developing economic participation in Wales.

Through European, Assembly and DWP contracts, WCVA has facilitated the sector in supporting thousands of people into economic participation through skills, training and employment. This session will consider the sector's experience to date, and make the case for widening its role through new ideas and new initiatives.

Marcella Maxwell – Working Links

Marcella Maxwell is the Wales Director for Working Links, a unique public, private, voluntary organisation which operates in some of the most deprived areas of the UK to address the challenges faced by long-term unemployed people. Since it was established in 2000, Working Links has helped over 17,000 people in Wales into work delivering from several locations across the region.

The organisation delivers a wide range of employment and skills contracts for a variety of funders such as the Department of Work & Pensions including New Deal for Disabled People, In Work Support and Progress to Work. It also delivers Jobmatch on behalf of the Welsh Assembly Government in Merthyr and Blaenau Gwent. In addition, Working Links is the prime contractor for Flexible New Deal in South West Wales and South Wales Valleys. The contract, worth an estimated £120m over five years, is expected to help over 100,000 job seekers across the area during that period.

Working Links believes that the third sector has a key role to play in promoting economic participation and is keen to build on its strong track record of partnership working with the sector to bring significant benefits to individuals and communities in Wales.

WORKSHOP SESSIONS

1. Developing new solutions

Voluntary and community organisations have a wealth of experience in helping people on the road to employment. They know what is needed by their users and communities and what will work for them. This aim of this workshop is to use that experience to develop new solutions, either by using and adapting existing programmes or by lobbying for new ones.

It will touch on the Community Allowance, currently being piloted in England, which allows people on Employment Support Allowance to be paid to help regenerate their communities, without jeopardising their benefit entitlements, and on the user-led approaches being piloted through WCVA's Engagement Gateway. It will ask whether we need employability programmes of a longer duration and whether they need to be available to jobseekers earlier in their unemployment. And it will invite you to put forward your ideas about the approaches you would like to see and what would be needed to make them work.

2. Supported employment – third sector experience and opportunities

Third sector organisations have long provided a safe and supportive environment for people taking their first steps back to the workplace. This workshop will consider the sector's experience in providing supported employment positions, and will focus on WCVA's new and expanded Intermediate Labour Market (ILM) scheme and the third sector opportunities in delivering the Future Jobs Fund.

The ILM scheme offers contracts of up to £300,000 for organisations to provide supported employment and training to economically inactive individuals, while the Future Jobs Fund is supporting job creation for 18-24 year olds through DWP funding.

3. Sustainable livelihoods

Current employment and welfare policy is based on a belief that work brings both financial and social benefits, but for individuals it may be more complicated than that. Worries about whether work, particularly the prospect of low paid or short-term work, might affect benefit entitlement, parenting responsibilities or family care commitments may make people very apprehensive of taking up employment support.

The Sustainable Livelihoods Approach is not a tool for helping people into work but it can help individuals and communities to look at their existing assets and how they use them to build a sustainable livelihood. This workshop will introduce the approach and discuss how it might be used by voluntary and community organisations to benefit the people they work with.

4. Volunteering and Access to Work: how volunteering can help people seeking employment

For those people who are economically inactive and seeking employment, volunteering can offer a valuable step forward. Volunteering offers a unique opportunity to strengthen employability; through the flexibility of roles available, individual support provided, the acquisition of transferable skills, confidence building and practical experience.

Some real-life case studies will be presented, together with some ideas for volunteer managers who want to support volunteers whose motivation is ultimately to gain employment. We also identify the role of different partner agencies working in this field including recent initiatives such as the Engagement Gateway programme in Wales which aim to provide more coherent 'pathways' from economic inactivity to paid work.

5. The third sector and flexible new deal

Working Links aims to address the challenges faced by long-term unemployed people. In the last 10 years they have helped over 130,000 people to change their lives by supporting them into sustainable employment, with over 17,000 of those are in Wales.

Working Links is now looking to take forward a partnership with the third sector in order to improve their service to individuals on flexible new deal in South and West Wales. Specifically, they hope to explore how to enhance their customers' journey towards work through a 4-week programme of work related activity and other provision.

The workshop will explore how third sector organisations can play an important role in working with Working Links, through WCVA, to bring real benefits to individuals and communities in Wales.

6. City Strategy delivery in the Heads of the Valleys and engagement of the third sector

DWP, through City Strategy, aims to tackle worklessness in our most disadvantaged communities based on the idea that local partners can deliver more if they combine and align their efforts behind shared priorities, and are given more freedom to try out new ideas and to tailor services in response to local need.

Local consortium partnerships were requested to set out how they would engage local people, including engagement through the third sector and setting out how capacity could be built within the sector. Rachel Moxey will share the challenges this has presented and set out solutions that are being developed in partnership with WCVA through the Engagement Gateway.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Hyrwyddo cyfranogiad economaidd:

sialensiau a chyfleoedd ar gyfer mudiadau yn y trydydd sector

Dydd Llun 8 Chwefror 2010, Stadiwm Dinas Caerdydd

Cefnogwyd gan

working links

Newid bywydau. Creu dyfodol.
Changing lives. Creating futures.

Mae'r dirwasgiad presennol wedi hoelio sylw'r Llywodraeth ar fynd i'r afael â diweithdra i wneud yn siŵr na chaiff cenhedlaeth ei cholli i ddibyniaeth ac anweithgarwch economaidd.

Yn hanesyddol mae mudiadau yn y trydydd sector wedi gweithio gyda nifer o'r grwpiau sydd bellach yn ffocws i flaenoriaethau'r rheini sy'n gwneud y penderfyniadau. Mae cysylltiadau â'r grwpiau sydd yn y perygl mwyaf, dealltwriaeth o'u hanghenion ac enw da am gefnogi pobl allan o ddibyniaeth, yn golygu bod y sector mewn lle delfrydol i gyfrannu at bolisïau presennol y Llywodraeth.

Ond beth yw'r budd i'r sector? Mae cyllid grant yn dirywio'n raddol ac mae'n rhaid i nifer o fudiadau resymoli eu gwasanaethau a hynny ar adeg pan mae'r galw am y gwasanaethau hynny ar ei uchaf.

Felly mae hon yn adeg hollbwysig i fudiadau yn y trydydd sector gysylltu eu gwaith â rhaglenni presennol y Llywodraeth a diogelu eu gwasanaethau.

Bydd y gynhadledd hon yn dod â'r ddadl ynghyd ar swyddogaeth gynyddol y sector o ran hyrwyddo cyfranogiad economaidd gyda chyfres o weithdai a fydd yn seiliedig ar gyfleoedd ac yn edrych ar raglenni a phrosiectau gwahanol.

Siaradwr gwadd: Jim Knight, Gweinidog y DU dros Gyflogaeth a Diwygio Lles

Safbwyntiau Llywodraeth y Cynulliad a'r trydydd sector

Trafodaeth panel y siaradwyr gyda chwestiynau o'r llawr

Gweithdai ar brosiectau a rhaglenni sy'n rhoi cyfleoedd i fudiadau yn y trydydd sector

Ardal arddangos a rhwydweithio

RHAGLEN

9:30	**Cofrestru, coffi ac arddangosfeydd**
10:15	**Croeso a sylwadau agoriadol y Cadeirydd**
10:25	**Safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru** Leighton Andrews AC, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
10:50	**Safbwynt y Trydydd Sector** Graham Benfield OBE, Prif Weithredwr WCVA
11:10	**Egwyl Goffi**
11:25	**Safbwynt Llywodraeth y DU** Jim Knight AS, Y Gweinidog Cyflogaeth a Diwygio Lles
11:50	**Trafodaeth Panel**
12:30	**Cinio ac arddangosfeydd**
13:30	**Y Gynhadledd yn ailddechrau**
13:40	**Sesiwn gweithdai 1-6**
14:40	**Egwyl Goffi**
14:55	**Sesiwn gweithdai 1-6**
15:55	**Beth nesaf?** Phil Fiander, Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio, WCVA
16:15	**Sylwadau'r Cadeirydd i gloi**

Jim Knight AS

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yw'r adran fwyaf yn Llywodraeth y DU. Mae'n gyfrifol am gynorthwyo pobl i ddod o hyd i swyddi pan mae hynny'n bosibl, cynnig cymorth i'r rhai na allant gael gwaith, a helpu cyflogwyr i sicrhau'r sgiliau a'r cyflogeion sydd eu hangen arnynt.

Jim Knight yw'r Gweinidog Cyflogaeth a Diwygio Lles yn Llywodraeth y DU, ac mae ei bortffolio'n cynnwys cyfrifoldeb dros y farchnad lafur a'r economi, diwygio lles, Canolfan Byd Gwaith, rhaglenni cyflogaeth gan gynnwys y Fargen Newydd a Strategaeth Dinasoedd, a sgiliau. Bydd y sesiwn hon yn amlinellu strategaeth gyfredol y DWP ac yn rhoi safbwynt Llywodraeth y DU ar rôl y trydydd sector yn yr agenda cyfranogaeth economaidd.

Leighton Andrews AC

Swyddi a chynlluniau cyflogaeth yw nod cyfranogaeth economaidd yn y pen draw, ond mae gwella a datblygu sgiliau, drwy addysg a hyfforddiant, yn hanfodol i sicrhau bod pobl mewn swyddi cynaliadwy a da.

Leighton Andrews yw'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru lle mae ei bortffolio'n cynnwys cyfrifoldeb dros sgiliau sylfaenol, sgiliau ar gyfer cyflogaeth a chyflogadwyedd, bylchau a phrinder sgiliau, a buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer datblygu economaidd. Bydd y sesiwn hon yn gyfle i glywed safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar rôl y trydydd sector mewn datblygu sgiliau.

Graham Benfield OBE

Mae gan WCVA ran flaenllaw yn rôl y trydydd sector mewn datblygu cyfranogaeth economaidd yng Nghymru.

Drwy gyfrwng contractau Ewropeaidd, y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae WCVA wedi hwyluso'r sector i gynorthwyo miloedd o bobl i gyfranogi'n economaidd drwy sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar brofiad y sector hyd yma, ac yn dadlau dros ehangu ei rôl drwy syniadau newydd a chynlluniau newydd.

Marcella Maxwell – Working Links

Marcella Maxwell yw Cyfarwyddwr Cymru ar gyfer Working Links, sefydliad cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, unigryw sy'n gweithredu yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU i fynd i'r afael â'r heriau y mae pobl ddi-waith hirdymor yn eu hwynebu. Ers ei sefydlu yn 2000, mae Working Links wedi helpu dros 17,000 o bobl yng Nghymru i mewn i waith, gan gyflenwi o sawl lleoliad ar draws y rhanbarth.

Mae'r sefydliad yn cyflenwi ystod eang o gontractau cyflogaeth a sgiliau ar gyfer amrywiaeth o gyllidwyr fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl, Cymorth yn y Gwaith a Chynnydd at Waith. Mae hefyd yn cyflenwi Paru Swyddi ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr a Blaenau Gwent. Yn ogystal, Working Links yw'r prif gontractwr ar gyfer y Fargen Newydd Hyblyg yn Ne Orllewin Cymru a Chymoedd De Cymru. Disgwylir i'r contract, sy'n werth £120m amcangyfrifedig dros bum mlynedd, helpu dros 100,000 o geiswyr gwaith ar draws yr ardal yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Working Links yn credu bod gan y trydydd sector rôl allweddol i'w chwarae wrth hybu cyfranogiad economaidd ac mae'n awyddus i adeiladu ar ei record gref o weithio mewn partneriaeth â'r sector i ddod â buddion sylweddol i unigolion a chymunedau yng Nghymru.

SESIYNAU GWEITHDAI

1. Datblygu atebion newydd

Mae gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol doreth o brofiad o gynorthwyo pobl ar y ffordd i sicrhau gwaith. Maent yn gwybod beth yn union sydd ei angen ar eu defnyddwyr a'u cymunedau a'r hyn fydd yn llwyddo iddynt. Nod y gweithdy hwn yw defnyddio'r profiad hwn i ddatblygu atebion newydd, un ai drwy ddefnyddio ac addasu rhaglen sy'n bod eisoes neu ymgyrchu dros rai newydd.

Bydd yn edrych ar y Lwfans Cymunedol, sy'n cael ei redeg fel prosiect peilot yn Lloegr, sy'n caniatáu i bobl sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gael eu talu i helpu i adfywio'u cymunedau, heb beryglu eu hawl i dderbyn budd-daliadau, ac ar ddulliau sy'n cael ei harwain gan ddefnyddwyr sy'n cael eu rhedeg fel rhan o gynllun peilot drwy brosiect Porth Ymgysylltu WCVA. Bydd yn gofyn a oes angen rhaglenni cyflogadwyedd arnom sy'n para'n hirach ac a ddylent fod ar gael i geiswyr gwaith yn gynharach yn ystod eu diweithdra. A bydd yn eich gwahodd i gynnig eich syniadau chi ar y dulliau yr hoffech eu gweld yn cael eu mabwysiadu a'r hyn y byddai ei angen i wneud iddynt weithio.

2. Cyflogaeth dan gymorth – profiad y trydydd sector a chyfleoedd

Mae mudiadau trydydd sector wedi bod wrthi ers amser yn darparu amgylchiadau gweithio diogel a chefnogol i'r bobl hynny sy'n cymryd y camau cyntaf yn ôl i'r gweithle. Bydd y gweithdy hwn yn ystyried profiad y sector o ddarparu swyddi cyflogaeth dan gymorth, a bydd yn canolbwyntio ar gynllun Marchnad Lafur Drosiannol (MLD) newydd ac estynedig WCVA a chyfleoedd i'r trydydd sector redeg Cronfa Swyddi'r Dyfodol.

Mae'r cynllun MLD yn cynnig contractau gwerth hyd at £300,000 i fudiadau i ddarparu cyflogaeth dan gymorth a hyfforddiant i unigolion sy'n economaidd anweithgar, tra mae Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn cynorthwyo i greu swyddi ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed gyda chyllid gan y DWP.

3. Bywoliaeth gynaliadwy

Mae'r polisi cyfredol ar gyflogaeth a lles yn seiliedig ar y gred bod gwaith yn arwain at enillion ariannol a buddiannau cymdeithasol, ond nid yw mor syml â hynny i lawer o bobl. Mae ofnau y gallai gwaith, yn enwedig y posibilrwydd o waith tymor byr ar gyflog isel, effeithio ar hawliadau budd-dal, cyfrifoldebau magu plant neu ofynion gofal teuluol gan wneud pobl yn amheus iawn o dderbyn cymorth cyflogaeth.

Nid yw'r Dull Bywoliaeth Gynaliadwy yn becyn sy'n cynorthwyo pobl i gael gwaith, ond gall helpu unigolion a chymunedau i edrych ar yr asedau sydd ganddynt eisoes a sut y gallant eu defnyddio i greu bywoliaeth gynaliadwy. Bydd y gweithdy hwn yn gyflwyniad i'r dull a bydd yn trafod sut y gallai mudiadau gwirfoddol a chymunedol ei ddefnyddio er budd y bobl maent yn gweithio â hwy.

4. Gwirfoddoli a Mynediad at Waith: Sut y gall gwirfoddoli helpu pobl i gael gwaith

Yn achos y bobl hynny sy'n economaidd anweithgar ac yn chwilio am waith, gall gwirfoddoli fod yn gam gwerthfawr ymlaen. Mae gwirfoddoli'n cynnig cyfle unigryw i wneud y person yn fwy cyflogadwy, drwy hyblygrwydd y rolau sydd ar gael, y cymorth unigol a ddarperir, drwy ddysgu sgiliau trosglwyddadwy, a magu hyder a phrofiad ymarferol.

Bydd rhai astudiaethau achos o fywyd go iawn yn cael eu cyflwyno, ynghyd â rhai syniadau ar gyfer rheolwyr gwirfoddolwyr sydd am roi cymorth i wirfoddolwyr sydd â nod o sicrhau swydd yn y pen draw. Yr ydym hefyd yn edrych ar rôl gwasanaeth asiantaethau partner sy'n gweithio yn y maes, gan gynnwys cynlluniau diweddar megis y rhaglen Porth Ymgysylltu yng Nghymru, sy'n gweithio i ddarparu 'llwybrau' mwy cydlynus i symud o anweithgarwch economaidd i waith cyflogedig.

5. Y trydydd sector a'r fargen newydd hyblyg

Nod Working Links yw rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu pobl sy'n ddi-waith dros y tymor hir. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf mae wedi helpu dros 130,000 o bobl i drawsnewid eu bywydau drwy roi help iddynt i ddod o hyd i swyddi cynaliadwy, gyda dros 17,000 ohonynt yng Nghymru.

Mae Working Links yn awr yn awyddus i ddatblygu partneriaeth â'r trydydd sector er mwyn gwella'i wasanaeth i unigolion sydd ar fargen newydd hyblyg yn y De a'r Gorllewin. Yn benodol, mae'n gobeithio edrych sut y gall hwyluso taith eu cwsmeriaid tuag at waith drwy gyfrwng rhaglen waith 4 wythnos o weithgarwch sy'n seiliedig ar waith a darpariaethau eraill.

Bydd y gweithdy'n ystyried sut y gall mudiadau trydydd sector chwarae rhan bwysig drwy weithio â Working Links, drwy WCVA, i gynnig buddiannau gwirioneddol i unigolion a chymunedau yng Nghymru.

6. Strategaeth Dinasoedd ar waith ym Mlaenau'r Cymoedd a chyfraniad y trydydd sector

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau, drwy'r Strategaeth Dinasoedd, yn ceisio mynd i'r afael ag achosion o beidio â gweithio yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae Strategaeth yn seiliedig ar y syniad y gall partneriaid lleol gyflawni mwy os ydynt yn cyfuno'u hymdrechion ac yn dod at ei gilydd y tu ôl i flaenoriaethau cyffredin, ac os ydynt yn cael rhyddid i brofi syniadau newydd ac i deilwra gwasanaethau mewn ymateb i'r angen lleol.

Gofynnwyd i bartneriaethau consortiwm lleol ddisgrifio sut y byddent yn ymgysylltu â'r bobl leol, yn cynnwys ymgysylltu drwy'r trydydd sector a nodi sut y gellid meithrin gallu o fewn y sector. Bydd Rachel Moxey yn rhannu'r heriau a wynebwyd yn sgil hyn ac yn darlunio'r atebion sy'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â WCVA drwy'r Porth Ymgysylltu.